

Addysg i'r Byddar yn yr Alban a Chymru

Crynodeb

Rob Wilks

Rachel O'Neill

1 Cyflwyniad

Cyhoeddwyd yr astudiaeth effaith annibynnol gyntaf o Ddeddf BSL (yr Alban) 2015, *The impact of the British Sign Language (Scotland) Act 2015 on deaf education* ym mis Tachwedd 2021 i gyfrannu at yr adolygiad o gynllun BSL cenedlaethol cyntaf yr Alban, a gweithredu fel pwynt trafod i rieni, athrawon, sefydliadau a phobl ifanc fyddar eu hunain am y newidiadau mae'r Ddeddf wedi'u gwneud mewn perthynas â'u haddysg hyd yma. Gwnaeth yr adroddiad 14 o argymhellion i randdeiliaid allweddol yn ymwneud â rhoi'r Ddeddf ar waith, gan gynnwys trafodaeth gyhoeddus ynghylch caffael iaith ac agweddau deuaidd (lleferydd neu BSL), ymgysylltu â theuluoedd plant byddar a phobl ifanc fyddar, tryloywder mewn perthynas â chyllido sefydliadau trydydd sector, cynnydd yn y cyrsiau BSL sydd ar gael a gwella wrth ddarparu cynnwys BSL ar wefannau.

Fodd bynnag nid oes unrhyw ymchwil wedi'i gynnal yn edrych ar safbwyntiau rhanddeiliaid ar addysg plant a phobl ifanc fyddar yng Nghymru a diben yr adroddiad dilynol hwn yw mynd rhan o'r ffordd i ymdrin â'r anghydbwysedd hwn, a gellir tynnu cymariaethau diddorol rhwng agweddau Cymru a'r Alban at BSL fel iaith.

Gwyddom fod addysg wedi chwarae rhan allweddol yn hanesyddol wrth hwyluso ac ar adegau orfodi unieithrwydd a thybed a ellid defnyddio addysg yn effeithiol hefyd i hyrwyddo iaith leiafrifol fel BSL, yn enwedig gan fod ysgolion yn hyrwyddo'r wybodaeth ddiwylliannol ac ieithyddol sy'n ddisgwyliedig gan blant yn gyffredinol. Dyna sydd wedi digwydd gyda'r Gymraeg a'r Aeleg. A ellid adfywio BSL hefyd drwy'r system ysgolion? Mae Cwricwlwm Rhagoriaeth yr Alban a'r Cwricwlwm newydd i Gymru'n awgrymu y gellid addysgu BSL o leiaf i blant byddar a phlant sy'n clywed, er nad ydynt yn rhoi unrhyw hawliau i blant byddar ddysgu BSL yn yr ysgol. Nod polisi Llywodraeth yr Alban, *Language Learning in Scotland: A 1+2 Approach*, yw sicrhau bod pob plentyn yn cael y cyfle i ddysgu iaith fodern (a elwir yn L2) o P1 hyd at ddiwedd addysg gyffredinol eang (S3). Yn ogystal, mae gan bob plentyn yr hawl i ddysgu ail iaith fodern (a elwir yn L3) o P5 ymlaen. Yng Nghymru, mae'r Cwricwlwm i Gymru'n dod ag addysgu'r Gymraeg ac ieithoedd tramor modern ynghyd i hybu ymagwedd amlieithog at ddysgu iaith yng Nghymru.

Fodd bynnag y gwahaniaeth rhwng y Gymraeg, Gaeleg a BSL yw'r ffaith yr ystyrir bod gan BSL 'statws categori deuil' sy'n golygu bod defnyddwyr BSL yn cael eu hystyried yn anabl a hefyd yn lleiafrif ieithyddol. Heb os mae hyn yn cymylu meddyliau gweithwyr meddygol ac addysgol proffesiynol sy'n ymwneud ag addysg plant byddar. Gan nad yw BSL yn iaith y cartref mewn 94% o achosion, yn aml nid yw rhieni'n gwybod fawr ddim am yr iaith pan fyddant yn darganfod bod eu babi'n fyddar.

2 Nodau'r Ymchwil

Y cwestiwn ymchwil cyffredinol oedd:

Sut mae ymagwedd gweinyddiaethau datganoledig yr Alban a Chymru at gynllunio iaith yn cefnogi hyrwyddo ac annog BSL mewn addysg i'r byddar?

Rhannwyd hwn yn is-gwestiynau fel a ganlyn:

- a) Beth yw ymagwedd(au) yr Alban a Chymru at gynllunio iaith yn gyffredinol?
- b) Sut mae'r Alban a Chymru'n cyflenwi eu pwerau datganoledig mewn perthynas ag addysg, ac addysg i'r byddar yn benodol?
- c) Pa botensial dwyieithog sy'n bodoli yn y ddwy genedl mewn perthynas â BSL?
- d) Sut mae'r Alban a Chymru'n cysyniadu BSL o ran hawliau *byddar-anabl* ac *iaith-lleiafrifol*?
- e) I ba raddau mae'r paradeim *byddar-anabl* yn parhau yn yr Alban a Chymru yng nghyd-destun addysg i'r byddar?
- f) Beth yw canfyddiad rhanddeiliaid o rôl y cyrff cenedlaethol, awdurdodau lleol, rhieni, colegau, prifysgolion, rhieni plant byddar a'r sector gwirfoddol o ran defnydd plant byddar o BSL a photensial dwyieithog?

3 Dulliau

Cynhaliwyd 19 cyfweiliad gyda chyfanswm o 21 cyfranogwr gyda gweision sifil Llywodraeth yr Alban a Chymru, cynrychiolwyr cyrff cyhoeddus cenedlaethol, swyddogion cyngor, cynrychiolwyr colegau a phrifysgolion, teuluoedd plant byddar, pobl ifanc fyddar, Athrawon y Byddar a gweithwyr trydydd sector (gweler Ffigur 1).

Drwy ddadansoddi data'r cyfweiliadau, lluniwyd tair thema drawsfaol a'n helpodd ni i ddeall sefyllfa BSL a phlant byddar yn y system addysg yng Nghymru a'r Alban:

1. yr amrywiaeth o ran cysyniadu BSL fel iaith;
2. y bylchau mewn darpariaeth yn y blynyddoedd cynnar hanfodol i blant byddar;
3. y diffyg o ran adnoddau i symud dwyieithrwydd BSL a Saesneg yn ei flaen i blant byddar yn y ddwy wlad.

Canfuwyd tystiolaeth hefyd o themâu a nodwyd yn ystod cam cyntaf y prosiect ymchwil hwn: aml/dwyieithrwydd, polisi iaith, agweddau iaith a Deddf BSL (yr Alban) 2015.

Categori rhanddeiliad	Nifer o gyfweiliadau	
	Yr Alban	Cymru
Gweision sifil	1	1
Colegau a phrifysgolion	1	1
Awdurdodau lleol	2	
Cyrff cyhoeddus cenedlaethol	3*	
Athrawon y Byddar	2	2
Cyrff trydydd sector	2 ^T	4 ^T
Cyfanswm	11	8

Ffigur 1: Nifer o gyfweiliadau yn ôl rhanddeiliaid


* Roedd gan un o'r cyfweiliadau hyn ddau unigolyn yn cynrychioli un corff cyhoeddus cenedlaethol

^T Roedd un o'r cyfweiliadau hyn yn cynnwys tri chynrychiolydd mewn un sefydliad yn cwmpasu'r Alban a Chymru

4 Canfyddiadau'r cyfweiliadau

Ceir crynodeb o ganfyddiadau'r cyfweiliadau mewn diagram yn Ffigur 2.

Roedd yn glir bod cysyniadu BSL fel iaith yn dibynnu ar bwy oedd yn cael eu cyfweld ac a oedd BSL yn cael ei hystyried yn iaith neu'n offeryn cyfathrebu i bobl fyddar. Cynhaliwyd cyfweiliadau gydag amrywiaeth o unigolion byddar a rhai oedd yn clywed, a gellid canfod safbwyntiau gwahanol rhyngddynt, oedd yn wir hefyd rhwng personél lefel uchaf a lefel canol i isaf. Roedd cysyniadu BSL fel iaith yn glir ar y lefel uchaf, hynny yw gweision sifil y llywodraeth a chyrrff cyhoeddus cenedlaethol, a thueddwyd i wyro at ystyried BSL fel offeryn cyfathrebu o'r lefel canol (awdurdodau lleol) a'r lefel isel (Athrawon y Byddar). Yn yr un modd, roedd gwell ymwybyddiaeth o bolisi iaith a'r hawl i iaith, hynny yw Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn, ar y lefel uchaf, gyda hyn yn lleihau tua'r lefelau is, a gwell ymwybyddiaeth o bolisi iaith ymhlith cynrychiolwyr trydydd sector. Fodd bynnag, ar y lefel canol ac isel, yn gyffredinol roedd agwedd gadarnhaol at BSL, ond yn cyd-fynd â hyn roedd 'anesmwythyd' a phryder ymhlith athrawon y byddar, a diffyg ymwybyddiaeth mewn awdurdodau lleol am faint o amser mae'n ei gymryd i ddysgu iaith. Roedd yn glir yn gyffredinol fod y rheini ar y lefel canol i isel yn tueddu i fframio plant byddar yn ôl eu statws awdiolegol, ac er bod iechedd - yn fwy penodol awdioleg - y tu allan i addysg, mae ei ddylanwad yn amlwg ar athrawon y byddar a byddai hyn yn esbonio eu hagweddau at BSL.



Ffigur 2: Canfyddiadau'r cyfweiliadau

Roedd bylchau mewn darpariaeth yn y blynyddoedd cynnar i blant byddar hefyd yn thema bwysig, gyda chydabyddiaeth fod hwn yn gyfnod hanfodol ar gyfer caffael

iaith. Roedd yn glir fod cynrychiolwyr grwpiau chwarae'r trydydd sector yng Nghymru'n deall pwysigrwydd caffael iaith yn y blynyddoedd cynnar ac roedd un ohonynt yn gallu cymhwyso hyn yn rhwydd i achos plant byddar a BSL. Ymhlith athrawon y byddar, roedd yn glir nad oedd ganddynt unrhyw gynigion i sicrhau caffael iaith mewn plant byddar rhwng sero a thair oed cyn iddynt ddechrau ar eu haddysg ffurfiol. Mae gwaith y Mudiad Meithrin, yn enwedig y cynllun Cymraeg i Blant, yn fodel defnyddiol ar gyfer annog rhieni i ystyried dysgu a gofal i'w plant yn y blynyddoedd cynnar mewn lleoliadau dwyieithog. Eglurwyd y cysylltiad rhwng y blynyddoedd cynnar a'r gwasanaethau iechyd hefyd, gyda rôl ymwelwyr iechyd yn cael ei bwysleisio'n benodol yn nhermau trosglwyddo eu barn bersonol i rieni ar ddewisiadau iaith i'w plentyn.

Y thema olaf a nodwyd drwy'r cam cyfweliadau oedd y graddau roedd adnoddau ar gael neu'n brin yng Nghymru a'r Alban ar gyfer dysgu BSL ac mewn addysg i'r byddar. Crynhoir y materion hyn yn Ffigur 3.


Mae achos clir dros osod addysgu BSL i deuluoedd plant byddar ar sail ffurfiol. Mae diffyg amlwg ymhlith athrawon cymwysedig a/neu wedi'u hyfforddi i addysgu BSL yng Nghymru a'r Alban, sefyllfa a gymhlethir gan ddiffyg cyrsiau BSL a chysiau wedi'u teilwra sy'n gadael i blant ddysgu BSL yng nghyd-destun y Cwricwlwm Rhagoriaeth neu'r Cwricwlwm i Gymru. Yn hyn o beth, gellir dysgu llawer o'r ymdrechion i feithrin capasiti ar gyfer Gaeleg a Chymraeg, a chafwyd enghreifftiau o ddysgu iaith mewn ysgolion drwy weithio mewn partneriaeth gydag ysgolion eraill, awdurdodau lleol a phrifysgolion a defnyddio 'athrawon ardal'. Daeth yn glir nad yw'n wybyddus faint o athrawon BSL sydd yn y DU, sy'n ei gwneud yn anoddach fyth i gynllunio'r gweithlu.

Yn ddelfrydol, pobl fyddar ddylai fod yn addysgu BSL, ond fel y nododd un cynrychiolydd o gorff cyhoeddus cenedlaethol, ceir problem o ran capasiti, ac mae gan bobl fyddar gefndiroedd academiaidd a phrofiad anhraddodiadol sy'n ei gwneud yn anodd iddynt sicrhau cymwysterau addysgu a bodloni safonau. Hefyd cafwyd peth trafodaeth am 'ganolfan ragoriaeth' ar gyfer BSL.

Roedd athrawon y byddar a gyfwelwyd yn glir nad oeddent yn bersonél addas i addysgu BSL, er y byddai'n ddisgwyliedig eu bod yn addysgu plant byddar yn ddwyieithog. Mae hyn yn golygu bod angen codi sgiliau proffesiwn athrawon y byddar, yn ogystal â chynnydd o ran hyfforddiant a recriwtio.

Mae angen datblygu deunyddiau wedi'u teilwra i gwricwlwm yr Alban a Chymru sy'n briodol i blant byddar neu sy'n clywed yn hytrach nag oedolion. Cyflwynwyd achos clir dros TGAU BSL (National 5 yn yr Alban) yr oedd un cyfranogwr yn meddwl y byddai'n sbarduno mwy o gyllid ac adnoddau i addysgu BSL i bob grŵp blwyddyn mewn ysgolion.

O ran y blynyddoedd cynnar, yng Nghymru rhaid i arweinwyr a gweithwyr gael isafswm cymwysterau. Gellid cynnwys y gofyniad i ddysgu BSL yn y fframwaith hwn.



Ffigur 3: Adnoddau

Yn olaf, mae angen sicrhau cyllid i gyflawni'r uchod i gyd. Hyd yma ymddengys nad oes ymdrech cydlynol i ddyrannu cyllid gan Lywodraethau Cymru na'r Alban sy'n canolbwyntio ar BSL yn unig, er bod gan y ddwy lywodraeth drefniadau ar waith eisoes ar gyfer y Gymraeg a Gaeleg, y gellid eu hehangu'n rhwydd i gwmpasu BSL. Gallai hyn fod yn ffordd ymlaen i sicrhau bod capasiti'n cael ei ddatblygu ar gyfer darparu BSL mewn addysg blynyddoedd cynnar, cynradd ac uwchradd, ac ar gyfer codi sgiliau athrawon y byddar.

5 Argymhellion

Ar ôl cynnal adolygiad o effaith y Cynllun Cenedlaethol ar addysg i'r byddar, yn arbennig o ran problemau, methiannau a llwyddiannau, yng Ngham 1 y prosiect hwn a chynhyrchu 14 o argymhellion, hoffem ychwanegu'r argymhellion canlynol, sydd wedi'u grwpio dan bum thema.

Blynyddoedd cynnar

1. Gan ddefnyddio model Cymraeg i Blant y Mudiad Meithrin, dylid ymgorffori buddion BSL ac addysgegau iaith i blant byddar mewn hyfforddiant i fydwragedd, ymwelwyr ieched, sgrinio clyw newydd-anedig, ymgynghorwyr clust, trwyn a gwddf, personél canolfannau mewnblannu cochlea ac adrannau awdioleg yng Nghymru a'r Alban.
2. Dylid datblygu proffesiwn Therapyddion BSL newydd i gefnogi plant ifanc byddar a phlant â diagnosis hwyr a'r rheini nad ydynt wedi ffynnu gyda dulliau lleferydd yn unig.
3. Dylai cyllid fod ar gael i weithwyr blynyddoedd cynnar sy'n gweithio mewn lleoliadau dysgu blynyddoedd cynnar a gofal plant ddysgu BSL yn rhugl (hyd at SCQF 6 neu Lefel 3 Signature/iBSL).
4. Dylai cyllid a darpariaeth fod ar gael i alluogi rhieni a theuluoedd plant byddar i ddysgu BSL.

Addysgegau iaith

5. Argymhellwn fod sefydliadau addysg uwch yn yr Alban a Chymru'n ffurfio gweithgor i edrych ar ddatblygu cyrsiau addysgegau iaith gyda llwybrau Cymraeg, Gaeleg a BSL, gan fabwysiadu ymagwedd gydlynol i ddelio â'r ystyriaethau cyffredin sy'n gysylltiedig ag addysg ddwyieithog ac addysgu ieithoedd rhyngwladol ac 1+2 iaith.

Athrawon BSL

6. Dylai Llywodraethau Cymru a'r Alban gomisiynu ymarfer mapio i ganfod y nifer o athrawon BSL sy'n ymarfer ar hyn o bryd yng Nghymru a'r Alban er mwyn gallu canfod maint y bwch cymwysterau a sgiliau ar gyfer addysgu BSL.

7. Dylid ehangu cyrsiau iaith israddedig ac ôl-raddedig i gynnig cyfleoedd i unigolion ddatblygu'n rhugl mewn BSL, cyrsiau hyfforddiant cychwynol i athrawon sy'n cynnwys BSL fel pwnc a chysiau hyfforddi datblygiad proffesiynol parhaus i athrawon sydd eisoes yn gymwys, ynghyd â datblygu adnoddau i ategu cyrsiau hyfforddi o'r fath.
8. Hyd nes y sefydlir darpariaeth debyg yng Nghymru, dylai Llywodraeth Cymru gyllido lle i bedwar myfyriwr y flwyddyn gwblhau cwrs Addysg Gynradd gyda BSL ym Mhrifysgol Caeredin.
9. Dylai Llywodraethau Cymru a'r Alban ehangu cyllid i gynnwys cyfnodau sabothol iaith i athrawon cymwys ddysgu BSL.
10. Er mwyn cyflawni meddwl a gweithredu mwy cydlynol, dylai rhwydweithiau presennol ar gyfer Athrawon BSL, athrawon byddar ac athrawon y byddar gydweithio. Mae'r rhwydweithiau hyn yn cynnwys Grwp Athrawon Byddar yr Alban, Cymdeithas Athrawon y Byddar Prydain, Athrawon b/Byddar y Byddar, Cymdeithas Athrawon ac Aseswyr BSL, y Consortiwm Arwyddo Dwyieithog a Chanolfan Synhwyraidd yr Alban.
11. Dylid cynnig cyfle i rwydweithiau iaith Gymraeg, Gaeleg a BSL gydweithio i fynd i'r afael ag ystyriaethau cyffredin mewn addysg cyfrwng Cymraeg, Gaeleg a BSL.

Athrawon y Byddar

12. Dylai Llywodraeth Cymru weithio mewn partneriaeth gyda darparwr cymhwyster athrawon y byddar i gynnig mwy o gyfleoedd i athrawon (iaith) yng Nghymru gymhwyso fel athrawon y byddar gyda golwg ar ddatblygu cwrs athrawon y byddar yng Nghymru.
13. Dylai Llywodraethau Cymru a'r Alban ehangu cyllid i gynnwys cyfnodau sabothol iaith i athrawon y byddar ddysgu BSL.

Polisi iaith

14. Byddem yn annog Llywodraeth yr Alban i gynnwys yr argymhellion hyn a'r argymhellion yn adroddiad Cam 1 yn yr ail Gynllun BSL Cenedlaethol i'r Alban am y cyfnod 2024 i 2030.

6 Y camau nesaf

Mae'n amlwg fod llawer i'w wneud i wella addysg y byddar yn yr Alban a Chymru, a chynyddu capasiti ar gyfer dysgu BSL drwyddi draw. Mae'n hanfodol cael mwy o feddwl cydlynol ar draws y sector, a chynigiwn bod cynhadledd addysg y byddar yn cael ei chynnal i'r DU gyfan yn 2023 neu 2024 gyda gwahoddiad i randdeiliaid ar bob lefel ledaenu gwybodaeth, addysgegau iaith ac arfer gorau.

Mae angen rhagor o ymchwil hefyd am y ffordd y mae cael eu haddysg mewn iaith nad ydynt eto'n gwbl rugl ynnddi yn effeithio ar fynediad plant byddar at y cwricwlwm, er mwyn cefnogi cynnwys BSL ymhellach yn addysg plant byddar.